***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 602 (Cy. 127)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Mawrth 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *19 Mawrth 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *21 Mawrth 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(**1**) a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) ac adrannau 294 a 316(1)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**3**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi, cymhwyso, dehongli a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a pharth Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" ac mae i "parth Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh zone" gan adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**4**).

(4) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mawrth 2019.

(**1**) 1981 p. 29 ("Deddf 1981"); *gweler* adran 30(3) i gael y diffiniad o "the Ministers".

(**2**) Cafodd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adran 30 o Ddeddf 1981, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'u trosglwyddo wedyn o'r corff hwnnw i Weinidogion Cymru; *gweler* erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Cafodd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adran 30 o Ddeddf 1981, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran parth Cymru, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan erthygl 4(1)(e) o Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760). Cafodd y swyddogaethau hynny eu trosglwyddo ymhellach, ar sail gydredol, o ran cychod pysgota Cymru y tu hwnt i derfyn parth Cymru tua'r môr gan adran 59A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 2(1) o Atodlen 3A iddi.

(**3**) 2009 p. 23 ; *gweler* adran 294(8) i gael y diffiniad o "the appropriate national authority".

(**4**) 2006 p. 32 ; mae diwygiadau i adran 158 nad ydynt yn berthnasol i'r diffiniad hwn. At ddibenion y diffiniad o "Wales" yn adran 158(1), y ffin rhwng y rhannau hynny o'r môr o fewn Aberoedd Hafren a Dyfrdwy sydd i'w trin fel rhai sy'n gyfagos i Gymru a'r rhai nad ydynt i'w trin felly yw, ym mhob achos, linell a dynnir rhwng y cyfesurynnau a nodir yn Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 26 o Atodlen 11 iddi, mae O.S. 1999/672 yn parhau i gael effaith. Mewnosodwyd y diffiniad o "Welsh zone" yn adran 158(1) gan adran 43(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Pennir parth Cymru yng Ngorchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010.

**Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019(**5**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 1 (enwi, cychwyn a chymhwyso), yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a pharth Cymru."

(3) Yn erthygl 2 (dehongli), yn y mannau priodol, mewnosoder—

"mae i "Cymru" yr un ystyr ag a roddir i "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;";

"mae i "parth Cymru" yr un ystyr ag a roddir i "the Welsh zone" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;".

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

18 Mawrth 2019

(**5**) O.S. 2019/363 (Cy. 86).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/363 (Cy. 86)) er mwyn cywiro gwall sy'n ymwneud â chymhwyso'r offeryn hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.